

Targedau	Sut rydych wedi gweithio ar hwn	Ceir enghraifft ar
Targed 1	Sicrhau fy mod yn defnyddio amrywiaeth o lenyddiaeth ac eu cyfeirnod i'n gywir.	Dudalennau 18-20
Targed 2	Gwerthuso llenyddiaeth yn feirniadol.	Dudalen 3

Gan gefnogi eich trafodaeth gyda theori, ymarfer a thystiolaeth o'r lenyddiaeth, adfyfyrwch yn feirniadol ar sut y byddech yn cefnogi dysgwr unigol sydd a'i g/chynnydd yn cael ei effeithio gan rwystrau penodol i'w dd/dysgu yn ystod un cyfnod pendant o drosglwyddo (llorweddol neu fertigol).

Cyfrif geiriau: 5,445

Rhan 1

Cyflwyniad

Profir nifer o drosglwyddiadau gwahanol trwy gydol bywyd megis dechrau swydd newydd neu ddysgu sut i yrru car. Ond un o'r trosglwyddiadau sy'n effeithio fwyaf yn ystod plentyndod yw dechrau'r ysgol gynradd (Anna Freud National Centre for Children and Families, 2020). Mae newid yn rhan naturiol o fywyd ac yn sicrhau cyfleoedd i blant ddatblygu eu gwytnwch. Er hyn, os profa blentyn drosglwyddiad heriol a gwael, gall effeithio arno'n hir dymor gan arwain at effaith negyddol ar eu lles a'u cyflawniadau academaidd (Peters, 2010, t.4). Hanfodol ydyw felly bod plant yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod hwn. Yn ôl ymchwil (Peters, 2010, t.1) boed fod gan blentyn allu academaidd da neu wael, os profir trosglwyddiad negyddol, e.e. methu gwneud ffrindiau a diffyg perthynas cadarnhaol gyda'r athro, mi fydd y trosglwyddiad yn effeithio arnynt yn negyddol. Yn wahanol, cred Bronfenbrenner (1992, dyfynnwyd yn Peters, 2010, t.25) "regions in the environment that are especially favorable or unfavorable to the development of individuals are the person's particular personal characteristics". Golyga hyn bod rhinweddau'r plentyn megis iaith, crefydd a diwylliant yn gallu fod yn rhwystr wrth drosglwyddo i ysgol newydd. Ychwanegir,

bod plant sydd â phroblemau iechyd meddwl, problemau ymddygiad, plant a phrofwyd bwllo a phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) hefyd yn fwy tebygol o ddatblygu rhwystrau wrth drosglwyddo (Anna Freud National Centre for Children and Families, 2020). Yn y traethawd hwn, dilynir profiad bachgen ag ADY wrth iddo drosglwyddo o ddosbarth prif ffrwd i uned arbenigol a'r hyn y gwna'r ysgol i'w gefnogi.

Prif Gorff

Y plentyn dan olwg ydy Jac. Bachgen pedair blwydd oed ydyw sydd eisoes yn yr uned arbennig ers dau fis. Mae Jac yn aelod hoffus o'r dosbarth ac mae ganddo rieni cefnogol iawn. Cafodd ddiagnosis o Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASA) yn ddwy flwydd oed ar ôl cael ei gyfeirio at y Tîm Niwro-ddatblygiadol gan yr Ymwelydd Iechyd. Yn debyg i bob unigolyn mae gan Jac gryfderau a gwendidau (gweler y proffil un tudalen). Ers iddo ddechrau yn yr uned, amlygwyd rhai o'i gryfderau sef ei fod yn benderfynol iawn ac yn hunangyfeiriedig. Mae'n mwynhau canu a dawnsio i hwiangerddi a rhigymau cyfarwydd, mae'n hoffi archwilio gwrthrychau o amgylch y dosbarth ac mae'n hoffi chwarae a rhedeg y tu allan. Ond, yn y ddau fis diwethaf, amlygwyd ei anawsterau hefyd sydd yn cynnwys sgiliau cyfathrebu, corfforol, cymdeithasol a sylw gwranddo. Dechreuodd Jac ei daith academaidd mewn dosbarth prif ffrwd yn yr ysgol leol, ond profwyd nid oedd hyn yn addas ar gyfer ei anghenion, gan fod dosbarth Dysgu Sylfaen yn rhy brysus a swmlyd iddo. Adref bu Jac am weddi y flwyddyn, gyda'i fam yn gofalu amdano. Pan fo gan blentyn ADY, mae creu perthnasau cadarnhaol gyda phawb sydd ynghlwm a'r broses, yn gam ymlaen at sicrhau trosglwyddiad effeithiol (Hains a Dogaru, 2007 dyfynnwyd yn Peters, 2010, t. 18). Gan fod y trosglwyddiad yn un sensitif, mae'n angenrheidiol bod cynllun gweithredu yn cael ei greu a bod y rhieni yn ymwybodol o bob cam cefnogi sydd yn rhan o'r broses.

Cyflwr niwroddatblygiadol gydol oes yw ASA, mae un ym mhob 100 yn cael ei effeithio gan y cyflwr ac yn gyffredinol, effeithir ar fechgyn yn fwy na merched, gyda'r gymhareb ddiweddaraf yn un bachgen i bob tair merch (Wheeler a Bray, 2022). Effeithia'r cyflwr ar sgiliau cymdeithasol, iaith a chyfathrebu a meddwl ac ymddygiad yr unigolyn. Fel y nodir yn y Proffil Un Tudalen, dyma'r anawsterau amlygwyd gan Jac. Yn aml, gellir adnabod plant ag ASA oherwydd y tri maes y dengys anawsterau ynddynt. Cyflwynwyd term gan Wing (1988 dyfynnwyd yn Ryder, 2013), sef crëwr yr enw Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth, er mwyn disgrifio'r anawsterau sef 'triad amhariad'. Er hyn, oherwydd bod Awtistiaeth yn amrywiol iawn, gall symptomau ac anawsterau fod yn wahanol iawn ym mhob unigolyn (Centre of Excellence, 2015). Dengys bod ymyraethau cynnar yn ffactor allweddol er mwyn gwneud gwahaniaeth yn natblygiad plentyn (Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, 2022). Felly er

mwyn i Jac gyflawni ei lawn potensial rhaid darparu amrywiaeth o gyfleoedd iddo ddatblygu'r triad o fewn y cwricwlwm.

Soniwyd yn gynt yn y traethawd, bod Jac wedi dechrau mewn dosbarth prif ffrwd. Gwelir llawer o bwyslais heddiw ar sicrhau cynhwysiant plant ag ADY mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Noda Vander Wiele (2011, t.3) y dylai plant ag ADY gael y cyfle i'w haddysgu gyda disgyblion heb ADY. Ac yn ôl Hardman, Drew ac Egan (2008) digwyddir cynhwysiant lawn pan fo disgyblion gydag ADY yn derbyn y ddarpariaeth a chefnogaeth i'w hanghenion o fewn yr amgylchedd addysgu cyffredinol. Gellir cysylltu'r ffocws sydd ar gynhwysiant mewn ysgolion heddiw gyda'r Datganiad Salamanca a'r Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Addysg Anghenion Arbennig (UNESCO, 1994). Nodir yn y datganiad y rhinweddau sydd angen er mwyn sicrhau cynhwysiant megis bod pob sefydliad yn adnabod bod amrywiaeth o ddisgyblion yn gaffaeliad i'r ysgol (UNESCO, 1994, t.4). Cafodd y datganiad ei lywio gan safbwyntiau ar addysg a oedd yn seiliedig ar hawliau, a nodir ym mhennawd manifesto Y Ganolfan Astudiaethau Addysg Gynhwysol (2002) "Inclusive education is a human right, it's good education and it makes good social sense". Er hyn cred rhai (Rapp a Corral-Granados, 2021, t.13) bod y cysyniad craidd am gynhwysiant ond yn effeithio ar grwpiau penodol o bobl. Anghytuna Nilholm a Göransson (2017, t.14) gan fynegi bod cynhwysiant yn cynnwys pawb.

Er bod datblygiad y Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2017, t.17) yn nodi bod yn rhaid i'r cwricwlwm fod yn briodol i bob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth a bydd hyn yn helpu i "feithrin ein pobl ifanc yn ddinasyddion hyderus, galluog a gofalgar". Dibynnir hyn yn ôl Dyson (2001, t.99) ar allu addysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth a sgiliau sydd angen arnynt i ddysgu disgyblion ag ADY, a'u gwerthoedd ac ymddygiad at addasu eu haddysgu. Ar y llaw arall, mae rhai disgyblion ag anableddau difrifol angen lefel uchel o gefnogaeth ac ysgolion arbennig yw'r lleoliad gorau i ddiwallu eu hanghenion (Kauffman et al. dyfynnir yn Ryder, 2013). Esbonia pan y dysgir plant un i un gyda addysgwr ADY neu mewn dosbarth annibynnol, mae'r plant yn derbyn llawer mwy o sylw unigol, sydd o ganlyniad yn arwain at dwf ym mhotensial o gynnydd academiaidd (Rapp a Corral-Granados, 2021, t.31).

Ceir dau fath gwahanol o drosglwyddiad, fertigol a llorweddol. Trosglwyddiad fertigol yw pan fo newid mawr yn nhrefn dyddiol plentyn, e.e. dechrau ysgol am y tro cyntaf. Ar y llaw arall, mae trosglwyddiad llorweddol, y newidiadau bach yn ystod y diwrnod megis amser cinio neu fynychu clwb ar ôl ysgol (Woodhead a Moss, 2007, t.8). Nodwyd bod sawl ffactor yn effeithio ar lwyddiant trosglwyddiad gan gynnwys ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol ac hefyd perthnasau parchus rhwng y cartref ac ysgol (Peters, 2010, t.22) Gellir cysylltu y ffactorau

hyn gyda Model Theori Amgylchedd Bronfenbrenner (Gray a Macblain, 2015, t.123). Cred Bronfenbrenner bod lefelau gwahanol yn yr amgylchedd (*micro-, meso-, exo- a macrosystemau*) yn dylanwadu ar y plentyn a'i ddatblygiadau. Yn *microsystem* Jac mae'r bobl fydd e'n cysylltu gyda'n ddyddiol er enghraifft ei deulu cyfagos ac athrawon yr uned. Yr haen nesaf yn y model yw'r *mesosystem* lle ceir y cysylltiad rhwng cartref Jac a'r ysgol. Noda Smith (1998, t.14) bod cysylltiadau rhwng lleoliadau yn bwysig wrth drosglwyddo gan ddweud "if there are warm, reciprocal and balanced relationships between the home and school teachers the transition will be supportive of development".

Ffactor arall a effeithia llwyddiant trosglwyddiad yw ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol (Packer, 2020). Mae ymddiriedaeth rhieni Jac yn athrawon yr uned a'r ysgol er mwyn sicrhau y gefnogaeth orau i Jac yn hanfodol. Er mwyn gwneud hyn a hybu dechreuad cadarnhaol i Jac ac unrhyw blentyn arall yn yr ysgol, rhaid sicrhau bod addysgwyr yn ffocysu ar bersectif, profiadau a disgwyliadau yr holl unigolion sydd ynglwm ar broses (Dockett a Perry, 2004 dyfynnwyd yn Peters, 2010, t.23). Wrth edrych ar drosglwyddiad llwyddiannus i blant ag ADY, rhaid ystyried yn gyntaf natur yr anghenion, er mwyn sicrhau cynllun cefnogi addas (Wilson-Burns, 2009 dyfynnwyd yn Peters, 2010, t. 34). Rhaid ystyried hefyd sut yr effeithir trosglwyddiad y plentyn ar y rhieni, oherwydd pan fo gan blentyn ADY, mae'r trosglwyddiad yn gallu achosi straen mawr ar y rhieni ac mewn rhai achosion mae angen cymorth ychwanegol ar y rhiant. (Rous, Teeters Meyers a Buras Striklin, 2007). Gan ystyried hyn, bydd sicrhau partneriaeth cadarn rhwng rhieni Jac â'r ysgol yn gam at sicrhau cefnogaeth iddynt pan fo angen. Ffactor arall er mwyn sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus yw cynllunio yn drylwyr a sicrhau bod polisïau a strategaethau mewn lle er mwyn cefnogi y plant a'u teuluoedd (Peters, 2010, t.35). Trafodir bwysigrwydd y ffactor hwn yn rhan nesaf y traethawd.

Er fod buddiannau amlwg o drosglwyddo Jac i Uned Anghenion Arbennig, ni olyga hyn bod y trosglwyddiad yn un hawdd. Pan gysylltodd y Sector Addysg gyda'r ysgol ynglŷn â Jac, crewyd cynllun gweithredu er mwyn dechrau'r trosglwyddiad. Trefnwyd cyfarfod gyda rhieni Jac er mwyn trafod y cynllun. Cyfarfod Cynllunio Person Ganolog (CPG) oedd hwn. Cyn i'r cyfarfod gymryd lle, rhoddir holiadur 'Dyma Fi' i'r rhieni. Mae'r holiadur yn cynnwys cwestiynau personol am Jac megis ei hoffterau a chasbethau. Mae'r holiadur yn gymorth i'r ysgol wrth baratoi ar gyfer ei ddechreuad ac hefyd yn cefnogi'r rhieni wrth iddynt baratoi ar gyfer y cyfarfod. Yn bresennol yn y cyfarfod roedd rhieni Jac, athrawes yr uned, asiantaeth allanol sef y Therapydd Iaith a Lleferydd (TILI) a'r Prifathro. Cyfarfod anffurfiol ydoedd i'r rhieni gael ymgyswngiadau gyda'r ysgol ac hefyd cwrdd â'r tîm fyddai'n gofalu am Jac. Byddai Pearpoint a Khan (Mecoco, 2019) yn anghytuno gyda'r ffaith nad yw Jac yn bresennol yn y

cyfarfod gan fod ymarfer person ganolog da yn golygu mai'r plentyn yw'r canolbwynt ac y dylid wrando ar lais y disgybl fel dechreuad ar sut i'w gefnogi. Ond ar y llaw arall, esboniwyd gan Pianta (2004):

That a child's competence at the beginning school level may not be the only or best outcome measure of successful transition. Instead, the quality of the parents' relationships with teachers, with school staff, and with the child's schooling may be an equally valid indicator of transition outcome.

(Pianta, 2004)

Trafodwyd yn gyntaf, beth yr edmygir am Jac, beth sy'n bwysig iddo, beth sy'n bwysig ar ei gyfer, beth sy'n gweithio iddo ac hefyd beth allai fod yn well.

Nesaf, trafodwyd y camau ar gyfer dechreuad Jac yn yr ysgol. Cytunwyd y byddai Jac yn treialu cyfnod pontio yn yr uned. Yn ystod y cyfnod hwn, byddai'n dod i'r ysgol am ddwy awr bob bore am bythefnos. Er mwyn cefnogi'r cam hwn, awgrymwyd y byddai cyrraedd yr ysgol am 9:30 y.b., sydd hanner awr yn hwyrach nag amser cychwyn arferol yr ysgol, yn syniad da, er mwyn osgoi prysurdeb a helynt y bore. Cefnoga Dockett a Perry (2001) y cynllun pontio hwn gan esbonio:

Transition programs are designed to help children and parents become familiar with the school setting. They may include an orientation time but tend to be longer term and more geared to the individual needs of children and families. Transition programs can be of indeterminate length, depending on a particular child or parent's needs.

(Dockett a Perry, 2001)

Mynegir gan Peters (2004) bod y cyfle i rieni ymweld â'r ysgol yr un mor bwysig ag yw i blant, oherwydd mae'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt ac yn gyfle da i ennyn ymddiriedaeth.

Ar ôl i'r cam pontio cyntaf ddod i ben, trefnwyd cyfarfod arall gyda rhieni Jac i drafod a oedd y pontio'n llwyddiannus, unrhyw gynnydd ac unrhyw faterion pellach. Gan fod y pythefnos o bontio wedi dangos llwyddiant, cytunwyd i ymestyn ei amser yn yr ysgol, tan un o'r gloch y prynhawn a hyn er mwyn treialu amser cinio. Esboniodd rhieni Jac eu bod yn awyddus iddo dreialu cinio'r ysgol, felly cytunwyd y byddai'n cael cinio ysgol ond hefyd yn dod â bocs bwyd, rhag ofn iddo wrthod bwyta'r cinio. Dyma enghraifft o ymarfer person ganolog effeithiol yn ôl Pearpoint a Khan (Mecoco, 2019) gan fod y cyfnod hwn yn broses o drafod

posibiliadau gwahanol a allai weithio, hefyd mae'n gyfnod o negodi gyda'r rhieni wrth geisio ddod at yr ateb cywir.

Un o'r pethau pwysicaf o ran cynnig cymorth i Jac yn ystod y broses trosglwyddo ydy'r Cynllun Cefnogi. Dengys y cynllun, weithgareddau dros gyfnod o chwech wythnos. Pwrpas y sesiynau ydy datblygu cynnydd yn sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Jac. Nodir yn y Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2021) mai "cynnydd mewn dysgu yw sut mae dysgwr yn datblygu ac yn gwella eu gwybodaeth dros amser".

Mae datblygiad iaith ym mhiant yn broses hynod o bwysig a chymhleth. Ond nid yw bob plentyn yn gallu datblygu y sgiliau iaith a chyfathrebu ar yr un cyflymder. Yn ôl Siencyn a Richards (2010), mai'r mwyafrif o blant yn cyrraedd y "garreg filltir ieithyddol safonol" erbyn tair i bedair blwydd oed. Nodir, erbyn pum oed bydd plentyn yn gallu gwneud rhestr o bethau gan gynnwys defnyddio brawddegau o bedwar i chwech gair, defnyddio amryw o ansoddeiriau, disgrifio rhywbeth y gwelir a defnyddio iaith i fynegi eu teimladau (Cyngor Sir Cumbria) Oherwydd ei anhawsterau iaith a lleferydd, nid yw Jac eto wedi cyrraedd y garreg filltir. Er hyn, gyda'r Cwricwlwm i Gymru (2021) nid oes pwyslais yn cael ei roi ar darged oedran, yn hytrach awgrymir gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r camau cynnydd fel targed, er mwyn datblygu'r sgiliau dros amser. Wrth edrych ar ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig o Faes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, esbonir bod y MDAph hwn yn 'anelu at alluogi dysgwyr i gyfathrebu'n effeithiol' (Llywodraeth Cymru, 2021). Yn ôl Delaney (2009) y sgil o gyfathrebu yw'r rhwystr pwysicaf i orchfygu i blentyn ag ASA. Yn bresennol, wrth edrych ar Gam Cynnydd Un o'r MDAph, sylweddolir bod y sgiliau yn heriol iddo. Penderfynwyd gan y CADY felly i ddilyn rhaglen sy'n addas ac hefyd yn realistig i Jac. Enw'r rhaglen hwn yw Assessment of Basic Language and Learning Skills (ABBLS). Dull arbennig o asesu ydyw i blant ag ASA ac sy'n profi anhawsterau iaith (Long, 2015). Defnyddir y dull hwn o asesu er mwyn mesur y sgiliau canlynol: sgiliau symud; sgiliau annibynnol; gallu academaidd; sgiliau rhyngweithio cymdeithasol a sgiliau iaith a chyfathrebu. Dylunwyd yr asesiad er mwyn datblygu targedau o fewn rhaglenni addysg i blant rhwng dwy a chwech oed (Long, 2015). Y weledigaeth ydy, bydd y rhaglen ABLLS yn galluogi Jac, ddatblygu y sgiliau dros amser er mwyn cyrraedd Cam Cynnydd 1 yn y Cwricwlwm i Gymru. Gellir cysylltu ABLLS gyda theori ymddygiadol Skinner. Cred Skinner (dyfynnwyd yn Gray a Macblain, 2015) y ceir sgiliau newydd eu meddu trwy gyflyru gweithredol neu glasurol. Esbonia'r theori pan fo gan plentyn ag ASA, mae angen defnyddio symbyliadau arnynt er mwyn gweld cynnydd yn eu datblygiad iaith. Gan ystyried y Cwricwlwm i Gymru, bydd cyflawni'r dull ABLLS yn galluogi Jac i ddatblygu cynnydd ar raddfa sy'n addas iddo ef.

Sut mae mynd ati felly i ddatblygu sgil cyfathrebu Jac? Nodir bod babanod cyffredin yn datblygu iaith trwy edrych ar wynebau a gweithredoedd ac yn gwrando ar oslef lleisiau gwahanol oedolion (Christie, Newson, Prevezer a Chandler, 2009). Yn ôl y diagram (gweler Atodiad A) dengys bod sgiliau sylw a gwrando yn sgiliau allweddol er mwyn datblygu iaith. Esbonir bod angen i blentyn ddatblygu sgil sylw da cyn symud ymlaen at ddatblygu sgiliau sylfaenol cyfathrebu eraill (Cyngor Sir Cumbria). Tanlinellir pwysigrwydd iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu gan Macblain (2014) wrth esbonio sut mae y sgil hwn yn cefnogi meysydd arall o ddatblygiad. Effeithir ar ddatblygiad gwybyddol a dysgu yn y modd mae'r ymennydd yn prosesu gwybodaeth, datrys problemau a chof. Effeithir ar ymddygiad, wrth ddilyn rheolau a deall achos, effaith a goblygiadau. Effeithir ar ddatblygiad cymdeithasol o ganlyniad i sgiliau rhannu a rhyng-weithio ar eraill. Hefyd effeithir ar ddatblygiad emosiynol o ran hunan hyder a sut i reoli emosiynau (Macblain, 2014, t.75). Mae'n hanfodol felly bod Jac yn datblygu cynnydd yn iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu er mwyn gallu datblygu'r sgiliau eraill. Noder hefyd yn y Proffil Un Dudalen bod gan Jac amser sylw byr. Felly yn y cynllun cefnogi sylwer bod y sgil hwn yn cael ei dargedu'n aml.

Er mwyn cefnogi datblygiad y sgil hwn, bydd amserlen weledol yn cael ei ddarparu i Jac, nodwyd hyn yn y cynllun cefnogi a'r Proffil Un Dudalen. Mae plant ag ASA yn gweithio'n well gydag amgylchedd sydd â strwythur a threfn, hefyd maent yn ymateb yn dda i giwiau llun. Gall amserlen weledol fod yn gymorth i'r plentyn weld a deall beth sy'n ofynnol a gwneud synnwyr o beth fydd yn digwydd yn ystod y diwrnod, ac hefyd yn eu cefnogi i aros ar dasg yn ystod gweithgareddau (Centre of Excellence, 2015). Bydd hyn yn gymorth i Jac wrth drosglwyddo o un weithgaredd i'r llall. Hefyd, esbonir (Cyngor Sir Cumbria) ei fod yn cefnogi datblygiad llythrennedd, gan fod rhaid i'r plentyn gysylltu y lluniau gyda geiriau. Annogir dealltwriaeth ac adnabyddaieth geiriau ac hefyd y berthynas rhwng geiriau a lluniau. Sylwer bod defnydd o'r amserlen weledol yn cael ei wneud cyn bob gweithgaredd yn y cynllun cefnogi, am ei fod yn ddull angenrheidiol sydd yn gweithio ac yn cefnogi Jac i aros ar dasg. Yn rhan nesaf y traethawd, esbonir yn fanwl pam y dewiswyd y gweithgareddau sydd yn y cynllun cefnogi.

Wythnos un

Yn yr wythnos gyntaf, canolbwyntir ar sgil sylw a gwrando a'i darged ydy datblygu ei allu i roi sylw i ddewis oedolyn o weithgaredd am gyfnod byr. Y gweithgaredd y dewiswyd ydy bwrdd lotto. Y targed yw bod Jac yn medru cyfateb y lluniau wrth wrando ar y gair ac edrych ar y lluniau unigol. Mae'r gweithgaredd hwn yn un weithredol a hwylus er mwyn dal sylw Jac. Dysgir trwy ailadrodd a modelu geirfa yn y weithgaredd hwn, e.e. bydd yr athrawes yn

dweud 'afal' ac annog Jac i ailadrodd 'afal' ar ei hôl. Cred Bruner (2000, t.1) mai "repetition is the first principle of learning", a hyn oherwydd bod ailadrodd yn cyflymu ac yn dyfnhau y broses cysylltu.

Wythnos dau

Eto yn yr ail wythnos, canolbwyntir ar sylw a gwrando gyda'r targed y tro hwn yn 'Dechrau gwrando ar sgwrs gyda diddordeb'. Stori synhwyrdd fydd y gweithgaredd gan ddefnyddio nifer o wrthrychau gwahanol er mwyn diddanu'r plant. Defnyddir straeon synhwyrdd gyda phlant ASA sydd ag anhawsterau synhwyrdd difrifol neu ADY difrifol. Mae'r athrawes yn adrodd stori ac yn darparu profiad byw ac aml-synhwyrdd i'r plant er mwyn dal eu sylw ac adeiladu ar eu dealltwriaeth o'r stori. Mae gan y synhwyrdd rôl hanfodol wrth adeiladu llwybrau niwrol ar gyfer hybu dysgu (The children's Trust, 2022). Annoga straeon synhwyrdd, blant i ddefnyddio eu sgiliau gwrando ac ymateb. Cytuna Locke (dyfynnwyd yn Macblain, 2014, t.104) gyda'r defnydd o synhwyrdd i ddatblygu iaith, credai bod ein gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd yn cael ei feddu trwy profiad synhwyrdd.

Wythnos 3

Yn y drydedd wythnos, fe fydd Jac yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth iaith, gan ffocysu ar darged o ddealltwriaeth cyfarwyddiadau ar lefel dau air allweddol. Yn aml, mae gan blant ag ASA anhawster gwneud synnwyr o'r iaith ar lafar. Felly gan ddefnyddio geiriau syml a chynnwys cliwiau mewn brawddegau, gall rhoi mwy o gyfle i'r plentyn brosesu yr hyn rydych yn ei ddweud a dewis y geiriau allweddol o'r frawddeg (Christie, Newson, Prevezer a Chandler, 2009). Er enghraifft yn y gweithgaredd bydd oedolyn yn gofyn i Jac 'Rho afal i doli', wrth roi cyfarwyddyd syml iddo, gall Jac ddechrau adnabod geiriau allweddol sef 'afal' a 'doli' gyda chyfarpar gweledol.

Wythnos 4

Datblygu sgiliau echddygol manwl ydy ffocws wythnos pedwar, gan ymarfer cyhyrau ei ddwylo wrth greu siapau allan o does. Gan ddilyn awgrymiadau ei raglen Therapi Galwediagaethol i ddefnyddio toes chwarae, darperir cyfleoedd iddo gryfhau cryfder ei law, cryfder pinsh a gafael. Mae sgiliau echddygol manwl yn angenrheidiol ar gyfer pob tasg mae'r plentyn yn ei gyflawni (The OT Toolbox).

Wythnos 5

Yn yr wythnos nesaf, targed Jac fydd datblygu'r gallu i gymryd tro a rhannu er mwyn datblygu ei sgilisu cymdeithasol. Er mwyn gwneud hyn bydd y gweithgaredd yn cael ei wneud ar sail grŵp bach. Esbonia Webster-Stratton (2010), er mwyn dysgu plant sydd ag anhawsterau cymdeithasu i chwarae gyda'i gilydd, mae dysgu mewn grŵp bach yn ffordd

dda o wneud hyn. Bwriad y gweithgaredd ydy cael y plant i ymglymu yn y rhyngweithio trwy weithgaredd gweithredol hwylus. Bydd Jac yn dysgu sut i gymryd tro, wrth i'r athro fodelu cymdeithasu da iddo ac hefyd bydd yn defnyddio ei sgil gwranddo, ac aros tro er mwyn gwranddo ar gyfarwyddiadau syml yr athro 'tro Jac, tro miss'.

Budd arall o'r gweithgaredd yw chwythu swigod. Dengys bod chwythu swigod yn ymarfer da ar gyfer iaith a lleferydd, gan ei fod yn dysgu datblygu sgiliau oromotor, synau dwywefusol, b, p ac m, i'r plentyn (Canolfan Datblygu Plant, 2018).

Wythnos 6

Yn wythnos olaf y cynllun cefnogi, mae gweithgaredd ymarfer corff. Mae chwarae y tu allan yn rhywbeth mae Jac yn hoff iawn o wneud ac yn siwr o'i ysgogi. Yn ystod y sesiwn bydd cyfle i ymarfer targed ABLLS, targed iaith a lleferydd, sylw a gwranddo a dealltwriaeth iaith. Defnyddir lluniau gweledol i esbonio pob symudiad a'r athro yn modelu'r symudiadau.

Wrth ddefnyddio'r cynllun cefnogi, mae Jac yn adeiladu ar ddysgu. Gelwir y proses hwn yn sgaffaldio. Cred Vygotsky (Gray a Macblain, 2015) bod sgaffaldio yn offeryn ar gyfer cynnydd, gan fod dysgwyr yn cyflawni tasgiau bach a hydrin er mwyn cyflawni nodau. Credir mae'r ffordd o gyflawni hyn ydy rhyngweithio gydag addysgwr profiadol a deallusol, arweina hyn at theori adeileddol gymdeithasol Vygotsky sef y Parth Datblygu Procsimol. Pwysleisir yn y theori bod cefnogaeth gymdeithasol yn allweddol ar gyfer datblygiad y plentyn.

Mae'n wir i ddweud bod newidiadau niferus iawn ym mywydau pob unigolyn boed yn blentyn neu'n oedolyn ac mae'r trosglwyddiad cynnar hynny i ysgol yn un o rhai pwysicaf bywyd. Mae sicrhau trosglwyddiad effeithiol gyda'r plentyn yn y canol a'r holl rhanddeiliaid o'i amgylch yn sicrhau yr arfer orau ar gyfer trosglwyddiad esmwyth, gwybodus, diogel a llwyddiannus lle mae pob aelod o'r tim pwysig yn gweithio mewn cytgordd er mwyn rhoi y dechreuad gorau posib mewn sefydliad addysg a'u cynefin.

Rhan 2

Proffil Un Tudalen Jac

Llun disgybl

Proffil Un Tudalen Jac



Beth mae pobl yn hoffi ac yn edmygu amdanaf i...

hapus
doniol
penderfynol

chwilfrydig
caredig
fy nghwtsys

Rwy'n hoffi..


- chwarae tu allan
- trenau a cheir
- dawnsio
- gwrando ar gerddoriaeth a hwiangerddi
- chwarae dŵr
- jig-so pren
- toes chwarae
- teganau aml-synhwyrdd
- swigod
- anifeiliad
- archwilio'r amgylchedd

Dymuniadau..

- i fod yn hapus
- i fod yn iach
- i fwynhau a setlo yn hapus yn amgylchedd yr ysgol
- i wneud ffrindiau a pherthnasoedd
- i gyrraedd fy mhotensial
- i ddatblygu i fod yn annibynol gyda sgiliau personol
- bod pobl yn deall bod gen anhawsterau ac eu bod yn fy nhefnogi yn y ffordd orau posib

Mae'n bwysig eich bod yn gwybod...

➤ Mae gen i ddiagnosis o Anhwylder Sbectwm Awtistiaeth sy'n golygu bod anhawsterau gen i gyda sgiliau cyfathrebu, rhyngweithio cymdeithasol, sgiliau chwarae, sgiliau annibynol ac anhawsterau synhwyrdd. Gweler drosodd ar sut i fy nghefnogi... ➡



Proffil Un Dudalen plws

Proffil Un Dudalen plws

Sut i fy nghefnogi orau..



Sgiliau iaith, Lleferydd a Chymdeithasol

Mae gan Jac raglen a thargedau gan y Therapïdd iaith a Gyfathrebu. Caiff ei adolygu yn dymhorol gan y Therapïdd. Mae'r staff dosbarth yn dilyn awgrymiadau y Therapïdd gan glymu'r targedau a'r sgiliau i fewn i'r gweithgareddau dyddiol y dosbarth.

Cyfarpar gweledol:

Mae angen cymorthion gweledol arno er mwyn ei helpu i ddeall beth sy'n digwydd/cyfarwyddiadau:

- Amserlen weledol i ddangos trefn y diwrnod.
- Cardiau 'Nawr a nesaf' er mwyn iddo weld beth sy'n digwydd a'r hyn rydych yn gofyn iddo wneud. Lluniau go iawn o bob ardal/gweithgareddau'r dosbarth tu fewn a'r ardal allanol.
- Staff i wisgo 'laniard' sy'n cynnwys cyfres o luniau go iawn o ardaloedd a chyfarpar y dosbarth. Dangos a phwyntio at y llun er mwyn iddo ddeall beth i'w wneud e.e. ffrwyth-amser byrbryd, cot-amser egwyl.
- Byrddau gyfathrebu craidd. Casgliad o fyrddau sy'n cynnwys symbolau a lluniau ar gyfer gweithgareddau gwahanol y dosbarth/ amser toiled/ amser cinio. Staff i fodlu sut i bwyntio at y lluniau unigol i gyfathrebu wrth weithio gyda Jac. Defnyddio techneg llaw dros law.
- Gwrthrychau cyfeirio: gwneud defnydd o wrthrych go iawn a'i ddefnyddio i gyfathrebu gyda Jac er mwyn iddo ddechrau deall cyfarwyddiadau e.e dangos cewyn i ddynodi amser newid cewyn, cwpan ar gyfer diod. Staff i gadw at yr un gwrthrychau bob tro a rhannu'r wybodaeth gyda'r cartref.
- Defnyddio 'Signalong' wrth gyfathrebu gyda Jac a'r dosbarth. Ystumiau i gynrychioli gair.
- Mae canolbwyntio yn heriol iawn i Jac, felly er mwyn datblygu'r sgil hwn, mae Jac yn dilyn y rhaglen 'Attention Autism' a 'Tapio Bocs'. Mae ar hyn o bryd ar Lefel 1 y rhaglen, ac yn mwynhau'r sesiynau.
- Staff i ddarparu sesiynau 1:1 neu bâr, er mwyn cefnogi ei sgiliau sylw a gwrando gan chwarae gêmiau syml sy'n annog cymryd tro, aros tro a rhannu. Mae Jac yn hoffi ffordd ei hun o fewn y dosbarth ac mae hyn yn rwystr.
- Mae angen i'r staff ddefnyddio iaith syml a chlir a modelu iaith dda drwy ailadrodd yn gyson a defnyddio ymadroddion byr, syml a chlir wrth gyfathrebu ag ef.
- Mae angen amser arno i brosesu cyfarwyddiadau.
- Rhestr o ysgogiadau sy'n denu sylw Jac er mwyn cwblhau tasg- 'System gweithio tuag at'

Sgiliau Cymorth Annibynnol

Tŷ bach: Mae Jac yn gwisgo cewynnau, nid yw ar hyn o bryd yn dangos unrhyw adnabyddiaeth bod angen newid ei gewyn, nid yw hefyd yn helpu wrth newid ei gewyn. Mae Mam wedi sôn y byddai hi'n hoffi ceisio ei ddysgu i defnyddio'r tŷ bach dros wyliau'r Nadolig, byddwn felly yn cefnogi hyn fel bo angen er mwyn cyflawni'r targed. Y staff i ddefnyddio systemau gweledol er mwyn iddo gyfarwyddo a symbol newid cewyn/ tŷ bach.

Corfforol: Hyd yn hyn, wrth ddal offer marcio, mae Jac yn defnyddio grip palmwr ac mae'n ei symud i fyny ac i lawr ac i nôl ac ymlaen gan ddefnyddio ei fraich gyfan. Yn ystod gweithgareddau sydd angen cywirdeb, mae angen cymorth llaw dros law e.e. jig-so, peintio. Bydd angen oedolyn i roi cymorth iddo wrth ddal ffordd i fwyta ei ginio.

Prosesu synhwyraidd

Mae angen cymorth 1:1 arno i'w helpu ddelio gyda'i emosiynau, pan fydd rhywun yn dweud 'Na'. Pan fydd hyn yn digwydd, mi fydd Jac yn ei dafu ei hun ar y llawr ac yn stompio ei draed ac yn crio am gyfnodau hir. Gall ei symud i ardal dawel/cwtch tywylla cheisio tynnu ei sylw gyda swigod helpu. Mae rhaid rhoi amser i'r emosiynau hyn i basio ac yna ei helpu symud ymlaen at weithgaredd arall.

Cyswllt cartref

Llyfr Cyswllt Ysgol a Chartref- staff i gofnodi adroddiad o'r diwrnod ac unrhyw ddigwyddiadau. Rhieni i gofnodi sut hwyl sydd ar y plentyn. Sicrhau trosglwyddiad positif i'r ysgol yn y bore ac ar ddiwedd y dydd. Ysgol a'r cartref i rannu syniadau a defnyddio strategaethau sy'n gweithio. Defnyddio'r un adnoddau gweledol.

Cynllun Cefnogi Jac

Wythnos	Ffocws Gwers (Daw y targedau hyn o raglen ChATT, Cyngor Sir Gaerfyrddin)	Gweithgaredd	Cyfundrefn/gwasanaeth fydd yn darparu'r ymyrraeth.	Cysylltiad â'r Cwricwlwm i Gymru.
1	Sgil Sylw a gwrando Targed Datblygu ei allu i roi sylw i ddewis oedolyn o weithgaredd am gyfnod byr.	Paratoi ar gyfer y weithgaredd Defnyddio amserlen weledol i drefnu sesiwn e.e. bwrdd nawr a nesaf. Cyflwyno dau lun i ddechrau (ychwanegu llun arall ar ôl iddo gyfarwyddo dros nifer o sesiynau). Ar ôl gorffen, annog y plentyn i dynnu'r llun i ffwrdd o'r bwrdd a'i bostio mewn i flwch postio. Athrawes i ddefnyddio arwydd <i>sign along</i> 'gorffen'. Gweithgaredd bwrdd lotto 1:1 Plentyn i dynnu llun allan o focs a cheisio cyfateb y llun gyda'r bwrdd lotto. Annog i ddefnyddio'r eirfa.	Athrawes ddosbarth/ Cynorthwyydd ar sail 1:1 o fewn ardal dawel.	Cam Cynnydd 1 leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. Rwy'n gallu gwrando ar eraill gyda sylw cynyddol.

		Gwobrwyo gyda'r hyn sydd o ddiddordeb i'r plentyn, gan ail-adrodd 'gwrando da' 'eistedd da'. Athrawes i gofnodi hyd ei ddiddordeb, sut oedd wedi ymateb e.e. ailadrodd geirfa, llwyddo i osod yn annibynnol.		
2	Sgil Sylw a gwrando Targed Dechrau gwrando ar sgwrs gyda diddordeb.	Paratoi ar gyfer y weithgaredd Defnyddio amserlen weledol i drefnu sesiwn e.e. bwrdd nawr a nesaf. Cyflwyno dau lun i ddechrau (ychwanegu llun arall ar ôl iddo gyfarwyddo dros nifer o sesiynau). Ar ôl gorffen, annog y plentyn i dynnu'r llun i ffwrdd o'r bwrdd a'i bostio mewn i flwch postio. Athrawes i ddefnyddio arwydd <i>sign along</i> 'gorffen' Gweithgaredd Stori Synhwyrdd Y Lindysyn Llwglyd lawn	Athrawes ddosbarth/ Cynorthwyydd ar sail 1:1 o fewn ardal dawl.	Cam Cynnydd 1 leithoedd, Llythrennedd a chyfathrebu Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. Rwy'n gallu gwrando ar eraill gyda sylw cynyddol.

		Defnyddio adnoddau megis torch ar gyfer lleuad a haul, swigod ar gyfer y sain 'pop', maracas ar gyfer y sain 'llwglyd' ac ati. Cynnig profiad amlsynhwyraid d er mwyn bachu sylw y plant.		
3	Sgil Datblygu dealltwriaeth iaith Targed Datblygu dealltwriaeth o gyfarwyddiad au ar lefel dau air allweddol.	Paratoi ar gyfer y weithgaredd Defnyddio amserlen weledol i drefnu sesiwn e.e. bwrdd nawr a nesaf. Cyflwyno dau lun i ddechrau (ychwanegu llun arall ar ôl iddo gyfarwyddo dros nifer o sesiynau). Ar ôl gorffen, annog y plentyn i dynnu'r llun i ffwrdd o'r bwrdd a'i bostio mewn i flwch postio. Athrawes i ddefnyddio arwydd <i>sign along</i> 'gorffen' Gweithgaredd Dau gymeriad e.e. tedi a doli. Bocs yn cynnwys ffrwythau a llysiau ffug neu go iawn. Dilyn cyfarwyddiadau 'r oedolyn e.e.	Therapydd iaith a Lleferydd/ athrawes/ cynorthwyydd ar sail 1:1 o fewn ardal dawel.	Cam Cynnydd 1 leithoedd, Llythrennedd a chyfathrebu Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. Rwy'n gallu gwrando ar eraill gyda sylw cynyddol. Rwy'n gallu adnabod a dilyn gwybodaeth a chyfarwyddiadau syml am bynciau cyfarwydd ac arferion.

		'rho'r afal i doli, rho'r banana i tedi' Annog geirfa, cymorth i ddatblygu gallu i ymestyn ei siarad		
4	Sgil Datblygu sgiliau echddygol manwl. Targed Ymarfer cyhyrau y dwylo gan greu siapau allan o does.	Paratoi ar gyfer y weithgaredd Defnyddio amserlen weledol i drefnu sesiwn e.e. bwrdd nawr a nesaf. Cyflwyno dau lun i ddechrau (ychwanegu llun arall ar ôl iddo gyfarwyddo dros nifer o sesiynau). Ar ôl gorffen, annog y plentyn i dynnu'r llun i ffwrdd o'r bwrdd a'i bostio mewn i flwch postio. Athrawes i ddefnyddio arwydd <i>sign along</i> 'gorffen' Gweithgaredd Creu lindys syml allan o does chwarae gwyrdd. Athrawes i fodelu sut i greu pêl wrth rowlio'r toes rhwng y bysedd a chledr y law. Athrawes i fodelu ac	Athrawes ddosbarth/cynorthwydd d Awgrymiadau o raglen Therapydd Galwedigaethol	Cam Cynnydd 1 Iechyd a Lles Mae datblygu iechyd a lles y Corff yn arwain at fuddiannau Gydol oes. Rwy'n dechrau datblygu rheolaeth ar symudiadau echddygol bras mewn gwahanol sefyllfaoedd.

		ailadrodd geirfa allweddol.		
5	Sgil Cymdeithasol Targed Datblygu y gallu i gymryd tro a rhannu.	Paratoi ar gyfer y weithgaredd Defnyddio amserlen weledol i drefnu sesiwn e.e. bwrdd nawr a nesaf. Cyflwyno dau lun i ddechrau (ychwanegu llun arall ar ôl iddo gyfarwyddo dros nifer o sesiynau). Ar ôl gorffen, annog y plentyn i dynnu'r llun i ffwrdd o'r bwrdd a'i bostio mewn i flwch postio. Athrawes i ddefnyddio arwydd <i>sign along</i> 'gorffen' Gweithgaredd Gwneud cawl gan chwythu swigod i mewn i badell. Plant i gymryd tro i ychwanegu cynhwysion e.e. llysiau ffug, yna chwythu mwy o swigod o mewn i'r badell er mwyn creu effaith berwi. Defnyddio dull 'Un i fi ac un i ti' ailadrodd y cyfarwyddyd mewn iaith	Athrawes ddosbarth a chynorthwyydd ar sail grŵp bach.	Cam Cynnydd 1 leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Mae deal ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. Rwy'n gallu gwrandao ar eraill gyda sylw cynyddol. Rwy'n gallu dangos gofal a Pharch at eraill

		syml 'tro Jac, tro miss'.		
6	Sgil iaith a lleferydd Sylw a gwrando Targed Datblygu defnydd o ferfau.	Paratoi ar gyfer y weithgaredd Defnyddio amserlen weledol i drefnu sesiwn e.e. bwrdd nawr a nesaf. Cyflwyno dau lun i ddechrau (ychwanegu llun arall ar ôl iddo gyfarwyddo dros nifer o sesiynau). Ar ôl gorffen, annog y plentyn i dynnu'r llun i ffwrdd o'r bwrdd a'i bostio mewn i flwch postio. Athrawes i ddefnyddio arwydd <i>sign along</i> 'gorffen'. Gweithgaredd Gêm addysg gorfforol. Dilyn cyfarwyddiadau yn ystod gweithgaredd ymarfer corff. Athrawes i fodelu symudiadau ac i ddefnyddio lluniau neu adnoddau gweledol. e.e. cerdded, rhedeg, neidio, rowlio ac ati.	Athrawes ddosbarth a cynorthwydd ar sail grŵp, y tu allan neu mewn neuadd. Awgrymiadau rhaglen therapydd iaith a lleferydd.	Cam Cynnydd 1 leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Mae deal ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. Rwy'n gallu adnabod a dilyn gwybodaeth a chyfarwyddiadau syml am bynciau cyfarwydd ac arferion.

Rhestr Gyfeirnod

- Anna Freud National Centre for Children and Families. (2020) *Transitions*. Ar gael yn: <https://mentallyhealthyschools.org.uk/risks-and-protective-factors/school-based-risk-factors/transitions/> (Cyrchwyd: 30 Hydref 2022).
- Canolfan Datblygu Plant. (2018) 'The Magic of Bubbles...From a Speech Therapist', *Child Development Centre* [blog]. 24 Ionawr. Ar gael yn: <https://www.cdchk.org/parent-tips/the-magic-of-bubbles/> (Cyrchwyd: 2 Tachwedd 2022).
- Centre of Excellence. (2015) *Autism Awareness Diploma*. Ar gael yn: www.centreofexcellence.com (Cyrchwyd: 2 Tachwedd 2022).
- Cyngor Sir Cumbria. *Supporting Children's Speech, Language and Communication Development in Early Years Settings and Schools*. Ar gael yn: <https://www.cumbria.gov.uk/childrensservices/schoolsandlearning/ils/specialeducationalneeds/speechandlanguagedifficulties/default.asp> (Cyrchwyd: 30 Hydref 2022).
- Christie, Ph., Newson, E., Prevezer, W. a Chandler, S. (2009) *First Steps in Intervention with your Child with Autism: Framework for Communication*. Llundain: Jessica Kingsley Publishers.
- Delaney, T. (2009) *101 Games and Activities for Children with Autism, Aspergers and Sensory Processing Disorders*. Llundain: McGraw-Hill.
- Dockett, S. a Perry, B. (2001) 'Starting school: Effective transitions', *Early Childhood Research and Practice*, 3(2) t.4. Ar gael yn: <https://ecrp.illinois.edu/issues.html> (Cyrchwyd: 30 Hydref 2022).
- Dyson, A. (2001) 'Special needs as the way to equity: an alternative approach?', *Support for Learning*, 16(3), tt.99. Ar gael yn: <https://nasenjournals.onlinelibrary.wiley.com/doi/abs/10.1111/1467-9604.00199> (Cyrchwyd: 2 Tachwedd 2022).
- Gray, C. a Macblain, S. (2015) *Learning Theories in Childhood*. 2il arg. Llundain: SAGE.
- Hardman, M., Drew, C. ac Egan, M. (2008) *Human exceptionality: School, community, and family*. 10fed arg. Boston: Allyn & Bacon Publishers.
- Llywodraeth Cymru (2017) *Cenhadaeth ein Cenedl*. Ar gael yn: <https://gov.wales/our-national-mission-0> (Cyrchwyd: 1 Tachwedd 2022).
- Llywodraeth Cymru (2021) *Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/> (Cyrchwyd: 5 Tachwedd 2022).
- Llywodraeth Cymru (2021) *Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Cynnydd*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-y-cod-cynnydd> (Cyrchwyd: 2 Tachwedd 2022).

- Llywodraeth Cymru (2022) *Deunyddiau ategol ar gyfer y cwricwlwm asesu a gwerthuso cynnydd dysgwyr*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/deunyddiau-ategol-ar-gyfer-y-cwricwlwm-asesu-a-gwerthuso-cynnydd-dysgwyr/> (Cyrchwyd: 30 Hydref 2022).
- Long, S. (2015) *ABBLs: What is it & Why do I need it*. Ar gael yn: <https://theautismhelper.com/ablls-what-is-it-why-do-i-need-it/> (Cyrchwyd: 5 Tachwedd 2022).
- Macblain, S. (2014) *How Children Learn*. Llundain: Sage Publications
- Mecoco. (2019) *What does Person Centred mean? Conversation with Jack Pearpoint and Lynda Khan* [fideo]. Ar gael yn: <https://www.youtube.com/watch?v=O0Q43Xss9FQ> (Cyrchwyd: 1 Tachwedd 2022).
- Nilholm, C. a Göransson, K. (2017) 'What is meant by inclusion? An analysis of European and North American journal articles with high impact', *European Journal of Special Needs Education*, 32(3), t.14. Ar gael yn: <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/08856257.2017.1295638?journalCode=rejs20> (Cyrchwyd: 3 Tachwedd 2022).
- Packer, Rh. (2020) 'Back to school: how to support children as they head into a new class', *The Conversation* [blog]. 28 Awst. Ar gael yn: <https://theconversation.com/back-to-school-how-to-support-children-as-they-head-into-a-new-class-144453> (Cyrchwyd: 30 Hydref 2022).
- Peters, S. (2010) *Literature Review: Transition from Early Childhood Education to school*. Ar gael yn: <https://www.educationcounts.govt.nz/publications/ECE/98894> (Cyrchwyd: 30 Hydref 2022).
- Pianta, R. (2004) 'Transitioning to school: Policy, practice, and reality', *The Evaluation Exchange*, X(2), t.14. Ar gael yn: <https://archive.globalfrp.org/evaluation/the-evaluation-exchange/issue-archive/early-childhood-programs-and-evaluation/transitioning-to-school-policy-practice-and-reality> (Cyrchwyd: 31 Hydref 2022).
- Rapp, A.C. a Corral-Granados, A. (2021) 'Understanding inclusive education – a theoretical contribution from system theory and the constructionist perspective', *International Journal of Inclusive Education*, t.13 Ar gael yn: <https://www.tandfonline.com/doi/pdf/10.1080/13603116.2021.1946725?needAccess=true> (Cyrchwyd: 31 Hydref 2022).
- Rous, B., Teeters Meyers, C. a Buras Striklin, S. (2007) 'Strategies for supporting transitions of young children with special needs and their families', *Journal of Early Intervention*, 30(1), tt.1-18. Ar gael yn: <https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.1177/105381510703000102> (Cyrchwyd: 31 Hydref 2022).
- Ryder, N. (2013) *Yr ABC i Anghenion Ychwanegol*. Caerfyrddin: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Siencyn, Si. W. a Richards, C. (2010) 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu', yn Siencyn, Si.W. (gol.) *Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed: Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*. Caerfyrddin: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Smith, A. B. (1998). *Understanding children's development*. 4ydd arg. Wellington: Bridget Williams Books.

The Children's Trust. (2022) *Sensosry Stories*. Ar gael yn: <https://www.thechildrenstrust.org.uk/virtual-learning/sensory-stories> (Cyrchwyd: 4 Tachwedd 2022).

UNESCO (1994) *The Salamanca Statement and Framework for Action on Special Needs Education*. Paris: UNESCO.

Vander Wiele, L. (2011) *The Pros and Cons of Inclusion for Children with Autism Spectrum Disorders: What Constitutes the Least Restrictive Environment?* Ar gael yn: <https://digitalcommons.liberty.edu/honors/257/> (Cyrchwyd: 30 Tachwedd 2022).

Webster-Stratton, C. (2010) *Y Llyfr Melyn: Sut i hybu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol plant*. Llandysul: Gwasg Gomer.

Wheeler, E. a Bray, M. (2022) 'Cwrs Bitesize', *Autism Spectrum Disorder/ Pathological Demand Avoidance*. Cyngor Sir Gaerfyrddin, 3ydd Hydref 2022.

Woodhead, M. a Moss, P. (2007) *Early Childhood and Primary Education: Transitions in the Lives of Young Children*. Milton Keynes: Open University.

Y Ganolfan Astudiaethau ar Addysg Gynhwysol (2002) *Ten reasons for inclusion* [poster]. Ar gael yn: <http://www.csie.org.uk/resources/ten-reasons-02.pdf> (Cyrchwyd: 31 Hydref 2022).

Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol (2022) *What is Autism*. Ar gael yn: <https://autism.org.uk/advice-and-guidance/what-is-autism> (Cyrchwyd: 2 Tachwedd 2022).